RHONDDA CYNON TAF

**Bwrdd Pensiwn RhCT - CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Llun, 9 Ionawr 2023 am 10.00am.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Bwrdd Pensiwn RhCT Aelodau yn bresennol: -**

- Yr Athro Hugh Coombs, Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
- Rob Whiles – Cynrychiolydd yr Aelodau (Pensiynwyr)
- David Francis - Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

**Swyddogion yn bresennol:**

Mr I Traylor, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Ms Y Keitch - Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys
Mr T Jenkins – Uwch Reolwr Carfan

## 37 DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda, nac achosion o wrthdaro buddiannau. Aeth y Cadeirydd ati i atgoffa'r aelodau o gyfrinachedd y trafodion.

## 38 YMDDIHEURIAD

Soniodd y Cadeirydd am ymddiheuriad a dderbyniwyd gan Aelod o'r Bwrdd, Ms Sindy Absalom, a dymunodd yr Aelodau'n dda i Ms Absalom.

## 39 COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A CHOFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau nad oedd cofnodion cyfarfod blaenorol y Bwrdd (Hydref 2022) ar gael ar hyn o bryd, er y byddai set o gofnodion drafft ar gael yn barod ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar y newidiadau yr oedd angen eu gwneud i adlewyrchu cywirdeb o ran Cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf a chytunodd Mr R Whiles, y Cadeirydd dros dro yng nghyfarfod mis Gorffennaf, i anfon y newidiadau arfaethedig ymlaen er mwyn i'r Aelodau gyflwyno sylwadau arnyn nhw a dod i gytundeb.

**CYTUNWYD** nodi agenda Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, heb godi unrhyw faterion o bryder. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau,

Caffael a Thrafodion wrth yr Aelodau am newid yn aelodaeth y Pwyllgor, a rhoddodd sicrwydd o'r rhaglen hyfforddi sydd ar waith i helpu'r Aelodau i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ymgymryd â'u dyletswyddau Pwyllgor ac i gefnogi parhad llywodraethu.

**40 PANEL YMGYNGHORI - BUDDSODDI A GWEINYDDU**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad mewn perthynas â chofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghori a Buddsoddi - Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a gafodd ei gynnal ar 25 Tachwedd 2022. Roedd dau reolwr cronfa yn bresennol.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys fod gwerth cyffredinol y Gronfa wedi gostwng o £4,108 miliwn (30 Mehefin 2022) i £3,995 miliwn (30 Medi 2022), gyda dychweliad cyffredinol y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2022 yn -15.7% yn erbyn meincnod o -8.6%. Rhoddwyd ystyriaeth i ffigyrau cyflawniad rheolwyr gweithredol a nodwyd bod Baillie Gifford wedi rhagori ar ei feincnod.

Soniodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys am drafodaethau gyda'r Gweithredwr i adolygu cyfansoddiad y Gronfa Twf Byd-eang a chyflwyniad adroddiadau ffurfiol y tri rheolwr cronfa wrth gefn. Gwnaeth y Bwrdd nifer o sylwadau perthnasol ynglŷn â'r trafodaethau hyn.

Rhoddwyd trosolwg o'r cyflwyniadau a ddarparwyd yng nghyfarfod y Panel i Aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â Veritas a Blackrock. Soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am broffesiynoldeb cyflwynwyr Blackrock, a nododd fod y cwmni'n lansio cynnyrch newydd ym mis Mehefin mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am yr opsiynau posibl sydd ar gael, gan gynnwys gwaith ar y cyd ag Awdurdodau Lleol eraill o ran diwydrwydd dyladwy pe bai'r cwmni'n bwrw ymlaen â hyn. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd cyflwyno adroddiad pellach i'r Bwrdd mewn perthynas â'r eitem hon mewn cyfarfod yn y dyfodol?

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i roi gwybod i Aelodau'r Bwrdd am y materion gweinyddol allweddol sy'n wynebu'r Gronfa, gan gynnwys un taliad hwyr ym mis Medi sydd wedi'i unioni ers hynny. Cadarnhawyd y byddai hyn yn cael ei gofnodi fel 'toriad ansylweddol' o'r gronfa o ystyried yr amgylchiadau. Derbyniodd y Bwrdd y farn hon.

Mae'r Aelodau'n cydnabod y diweddariad sylwebaeth risg mewn perthynas â phroses gaffael Gweithredwyr Partneriaeth Pensiynau Cymru a chyfeiriwyd at eu hatgyfeiriad a'u trafodaeth flaenorol yn hyn o beth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ei fod wedi trosglwyddo manylion trafodaeth y Bwrdd i'r Pwyllgor a'r Panel Cynghori ar Bensiynau.

Soniodd Aelodau'r Bwrdd am y cyfleoedd rhwydweithio cadarnhaol a oedd ar gael yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ogystal â dweud ei fod yn gyfarfod llawn gwybodaeth.

Mewn perthynas â'r llythyr at Aelodau'r Bwrdd, deallwyd bod llythyrau at Aelodau'r bwrdd wrthi'n cael eu paratoi. Byddan nhw'n cael eu hanfon maes o law. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth i wirio daliadaeth yr Aelodau a siaradodd am drefniadau gweithio cadarnhaol y Bwrdd Pensiwn. Soniodd yr Aelodau am y cysylltiad cadarnhaol gyda Phwyllgor y Gronfa Bensiwn a'r cymorth sydd ar gael gan swyddogion.

Soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am gwblhau Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn yn unol â'r gofyniad statudol a chadarnhawyd bod hwn bellach yn cael ei lunio'n ddigidol yn hytrach nag ar bapur.

Mewn perthynas â diweddariad McCloud, ychwanegwyd bod y gwaith prosiect yn mynd rhagddo a byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd angen 'ystadegau marwolaeth' y cynllun ar Fwrdd Cynghori'r Cynllun mwyach, fodd bynnag byddai'r Gronfa'n parhau i gasglu'r wybodaeth yma hyd at y dyddiad Prisio. Nodwyd bod rhagdybiaethau marwolaethau'r Gronfa ar gyfer ymarfer Prisio 2022, wedi'u diwygio o ganlyniad i bandemig Covid.

O ran y Prisiad Tair Blynedd, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y gwelliant sylweddol yn y cyllid o Brisiad 2019, ond tynnodd sylw at y gostyngiad sylweddol yng nghyflawniad y gronfa rhwng Ebrill a Medi 2022. Soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y sicrwydd a dderbyniwyd ac ychwanegodd fod angen cadw hyn mewn cof wrth osod rhagdybiaethau ar gyfer y dyfodol. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar gymryd agwedd ddarbodus, a chytunodd yr holl Aelodau fel y dull cywir. Roedd y farn hon hefyd yn unol â'r hyn a fynegwyd gan y SAB.

Holodd yr Aelodau ynghylch y cynnydd posibl o 10.1% mewn pensiwn y cyfeiriwyd ato yng nghofnodion y panel. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod dal angen cymeradwyaeth Trysorlys EM ar gyfer y cynnydd posibl hwn ac nid oedd unrhyw hysbysiadau ffurfiol wedi'u derbyn hyd yma.

Aeth y Bwrdd ati i gydnabod cyflawniad llwyddiannus yr ymarfer Datganiad Arbedion Pensiwn yn unol â rhwymedigaethau statudol y Gronfa. Holwyd a oedd rhagor o bobl yn bwrw ymlaen â threfniadau aberthu cyflog. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod hyn yn bosibl ond nid oedd tystiolaeth o hyn hyd yma. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd, yn galonogol, na fu gostyngiad yn aelodaeth y Gronfa oherwydd yr argyfwng costau byw.

O ran ymrwymiad ffurfiol y Gronfa i'r TPR 'Addewid i Ymladd Twyll Pensiwn', holodd un Aelod o'r Bwrdd am nifer yr ymosodiadau sgamiwr ar y Gronfa ac awgrymwyd y dylid cyflwyno diweddariad ar y broses newydd yn ôl i'r Bwrdd ar ddyddiad priodol.

Darparwyd adborth ansawdd data i'r Bwrdd, gyda lefel cydymffurfiaeth y Gronfa yn gyson â'r llynedd:

- Sgôr Data Cyffredin 97% (2021 – 97%)
- Sgôr Data Cynllun Penodol 99% (2021 - 99%)

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ddiweddariad hefyd i'r Bwrdd mewn perthynas â monitro cyflawniad Darbodus, gan ddweud bod y Gronfa'n profi gwelliannau o ran amseroedd gweithredu wrth i gynllun gweithredu datrysiad y darparwr ddod i rym. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Bwrdd fod hyn yn cael ei fonitro.

Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd fod I-connect yn parhau i gael ei gyflwyno fel y cytunwyd yn y Pwyllgor Pensiynau. Roedd disgwyl i ddau Gyflogwr arall ymuno, ac roedd nodiadau atgoffa o'r gofyniad hwn wedi'u hanfon. Roedd Aelodau'r

Bwrdd yn siomedig o weld nad oedd unrhyw gynnydd pellach wedi'i wneud gan y Cyflogwyr hynny.

O ran Hunanwasanaeth Aelodau (MSS), roedd yn braf nodi cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar MSS yn ystod y cyfnod. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i ychwanegu mai'r gobaith oedd y byddai'r cynnydd hwn yn parhau dros amser a soniodd am y bwriad i wthio ymgysylltiad yn rhan o ddechrau'r broses recriwtio. Nod hyn yw annog y cyfleoedd i ymuno â'r Gronfa, gan ddatblygu ymgysylltiad digidol lle bynnag y bo modd.

Yn rhan o'r diweddariad eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod amserlen gweithredu rhaglen y Dangosfwrdd Pensiwn wedi'i wthio'n ôl ar gyfer Cronfeydd CPLIL a rhagwelwyd y byddai'r Gronfa hon yn rhan o'r cynllun yn ystod 2025.

I gydnabod yr heriau sylweddol sydd o'n blaenau, roedd Aelodau'r Bwrdd yn falch o glywed am y cyfleoedd recriwtio sy'n cael eu datblygu a'r ffocws o ran 'meithrin eich talent eich hun' o fewn y Gwasanaeth a rhoi cyfleoedd i brentisiaid.

Holodd yr Aelodau ynghylch y weithdrefn datrys anghydfod fewnol a amlygwyd yng Nghofnodion y Panel, yn ogystal â'r cyfeiriad at ordaliad. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y cefndir a chytunodd fod hwn yn ddigwyddiad prin iawn a oedd wedi'i ddatrys wedyn. Nododd Aelodau'r Bwrdd mai nifer fach iawn o anghydfodau a gafwyd dros y blynyddoedd, fel yr adroddwyd i'r Bwrdd.

Ar ôl ystyried Cofnodion y Panel, **CYTUNODD** y Bwrdd i nodi'r cynnwys.

***Cam Gweithredu:***

- Adroddiad pellach i'r Bwrdd mewn perthynas â'r cynnyrch newydd gan Blackrock mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy.
- Manylion pellach am Grŵp McCloud

**41 MONITRO RISG**

Cyfeiriodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys Aelodau'r Bwrdd at y diweddariadau a gyflwynwyd i'r Gofrestr Risg yn dilyn cyfarfod diweddaraf y Bwrdd a thrafodwyd amrywiol faterion llywodraethu gan y Bwrdd.

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â chyflawni prisiad Teirblwydd 2022. Awgrymodd y Bwrdd y dylid cynnwys dyddiad cyflwyno'r adroddiad terfynol (Mawrth 23) yn y sylwadau. Nodwyd bod angen diweddaru'r dogfennau Llywodraethu a'r bwriad oedd ymgynghori'n ffurfiol gyda'r Bwrdd ar y Strategaeth Gyllido a byddai hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-gyfarfod mis Mawrth.

O ran y risg o golli enw da ,ac yn benodol seminarau a hyfforddiant, awgrymwyd y dylid ychwanegu geiriad at y mesur rheoli a ganlyn 'Mae'r Gronfa'n cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol, Fforymau Cyfathrebu, seminarau a hyfforddiant *yn uniongyrchol a thrwy Bartneriaeth Pensiynau Cymru*.

**CYTUNODD** yr Aelodau i nodi'r diweddariad.

**42 CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys ddiweddariad i Aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â chydgyfrannu Cymru gyfan. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod nifer o Awdurdodau Cyfansoddol wedi mynegi diddordeb mewn lansio cronfa ecwiti cynaliadwy.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses gaffael a'r amserlen mewn perthynas â Gweithredwr Partneriaeth Pensiynau Cymru. Sicrhawyd Aelodau'r Bwrdd bod cyfarfodydd swyddogion rheolaidd yn cael eu cynnal ac y byddent yn derbyn diweddariadau ar gynnydd yn unol â hynny.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i roi diweddariad ar gyfarfod Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022. Hysbyswyd yr Aelodau o'r presenoldeb cadarnhaol a'r eitemau agenda safonol a ystyriwyd yn y cyfarfod.

**CYTUNODD** y Bwrdd i nodi cynnwys y diweddariad.

## 43 FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Cyflwynwyd y fframwaith gwybodaeth a dealltwriaeth i Aelodau'r Bwrdd. Hysbyswyd yr aelodau am hyfforddiant Partneriaeth Pensiynau Cymru a drefnwyd ar gyfer 27 Chwefror.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth mewn perthynas â fframwaith gwybodaeth a dealltwriaeth y Bwrdd.

## 44 LLYWODRAETHU - DIWEDDARIAD O RAN COVID

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wrth yr Aelodau fod yr adran yn dal i ddefnyddio dull hybrid o ymdrin â threfniadau gweithio a'i bod yn hyrwyddo ymgysylltu digidol lle bynnag y bo modd.

Dywedodd Aelodau'r Bwrdd y gallai'r eitem hon ar yr agenda gael ei thynnu oddi ar agenda cyfarfodydd y dyfodol.

**CYTUNODD** y Bwrdd i nodi cynnwys y diweddariad.

**Pwyntiau Gweithredu** - *Diweddariad llywodraethu Covid i gael ei ddileu o bapurau agenda cyfarfodydd yn y dyfodol.*

## 45 MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL

Derbyniodd y Bwrdd gyflwyniad PowerPoint gan yr Uwch Reolwr Carfan mewn perthynas â'r ymarfer ardystio bywyd ar gyfer 'goruchwylio prawf bywyd pensiynwr'. Rhoddwyd manylion i'r Aelodau am yr ymarferion ardystio bywyd blaenorol a gynhaliwyd a'r symud i broses ar-lein yn lle hynny gan gynnwys proses dilysu wynebau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai Cronfa Bensiwn RhCT oedd y cyntaf i redeg cynllun digidol o'r fath a soniwyd am yr ymateb cadarnhaol hyd yma, gyda 101 o ardystiadau ers mis Hydref. Codwyd y posibilrwydd o farchnata'r datblygiadau hyn o ystyried y dull arloesol a ddatblygwyd.

Llongyfarchodd Aelodau'r Bwrdd y Swyddogion am yr arfer arloesol a'r gyfradd

fanteisio gadarnhaol.

**CYTUNWYD** i nodi'r cyflwyniad.

## 46 LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHORFFORAETHOL

Gwnaeth yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys sylwadau ar y ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu fel rhan o gyfrifoldebau'r Gronfa fel buddsoddwr cynaliadwy hirdymor. Clywodd y Bwrdd fod y Gronfa wedi ymrwymo i broses drosglwyddo drefnus o ran carbon, ac mae o'r farn mai ymgysylltiad gweithredol â chwmnïau buddsoddi yw'r dewis sy'n cael ei ffafrio i sicrhau newid tra'n rheoli materion risg buddsoddi cyffredinol.

Diweddarwyd yr Aelodau ar weithgarwch cadarnhaol y Gronfa yn yr ardal dros y cyfnod.

Ychwanegodd yr Uwch Gyfrifydd Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys fod adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd mewn perthynas â buddsoddiad y gronfa wedi'u datblygu gan ddefnyddio data ymchwil MSCI ESG.

Dywedwyd wrth y Bwrdd fod y Cynghorydd Norris wedi'i enwebu i fod ar bwyllgor gweithredol LAPFF yn cynrychioli Partneriaeth Pensiwn Cymru a Chronfa Bensiwn RhCT. Llongyfarchodd Aelodau'r Bwrdd y Cynghorydd Norris ar y penodiad.

**CYTUNODD** y Bwrdd i nodi cynnwys y diweddariad.

## 47 UNRHYW FATERION ERAILL

Rhoddodd Cadeirydd y Bwrdd ddiweddariadau i Aelodau a swyddogion mewn perthynas â'r canlynol:

- I. Gwefan SAB – yn cyd-fynd ag agenda ESG ac ymgynghoriad cyfredol y Llywodraeth.
- II. Canllawiau newydd mewn perthynas â chronni asedau
- III. Prisiad SAB - cyfraniad cyflogwr addasrwydd hirdymor
- IV. Dangosfwrdd Pwyntiau Bwled Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)
- V. Cyhoeddi rhybudd Sgam - TPR

Codwyd ymholiad ynghylch y cylch nesaf o ddyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a chytunodd swyddogion i ddarparu amserlen newydd o gyfarfodydd i'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn galendr.

Diolchodd y Cadeirydd i holl Aelodau'r Bwrdd a swyddogion am eu presenoldeb a'u cyfraniadau yn y cyfarfod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.08pm**

**Yr Athro H. COOMBS**
**CADEIRYDD.**